



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Atodlen 8: Personau neilltuedig sy'n gyflenwyr
trydan trwyddedig

Cynnwys

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau trydan i'r cyhoedd	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	3
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol	6
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	22
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg	28
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	29
8	Y Camau Nesaf	36
	Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	37

1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Hyd yn hyn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal ymchwiliadau safonau mewn perthynas â 256 o sefydliadau. Mae'r Mesur yn cyfeirio at 'bersonau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'. Mae 'person' yn y cyd-destun hwn yn golygu sefydliadau a sectorau sy'n dod o fewn categori o bersonau a bennir yn Atodlenni 5 a 6, neu Atodlenni 7 ac 8.

Mae'r ymchwiliad hwn i'r sector nwy a thrydan yn ychwanegol i'r nifer hynny. Dyma'r pedwerydd ymchwiliad i sectorau a enwir yn Atodlen 8, y Mesur. Eisoed mae ymchwiliad wedi ei gynnal i bersonau neilltuedig sy'n darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd, ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth a chyflenwyr gwasanaethau bysiau a threnau i'r cyhoedd.

Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r gweithgareddau a restrir yn Atodlen 9 y Mesur fel sail i'r ymchwiliad hwn.

2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau trydan i'r cyhoedd

Yn unol ag adran 62 y Mesur, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 24 Mehefin 2016 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp canlynol o bersonau:

- Atodlen 8: Personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio)

Noda memorandwm esboniadol y Mesur '[bod] dyletswyddau y gellir eu gosod ar y personau hynny a restrir yn Atodlen 8 yn y Mesur arfaethedig, ac sydd o fewn Atodlen 7, yn gyfyngedig i ddyletswyddau sy'n dod o fewn dau fath o safon, sef cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion'.¹

Roedd yr ymchwiliad, felly, yn casglu tystiolaeth ar y gweithgareddau a restrir fel safonau cyflenwi gwasanaeth a chadw cofnodion yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg.

Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 16 Gorffennaf. Daeth i ben ar 6 Hydref 2016.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan ddarparwyr trydan sy'n weithredol yng Nghymru. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg a'r cyhoedd.

Cynhaliwyd sesiwn briffio ar bwrpas a chylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gyfer cwmnïau sy'n ddarparwyr ynni ar 27 Gorffennaf 2016 yn Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd.

¹ Memorandwm esboniadol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63(1) y Mesur, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur. Ystyriwyd rhesymoldeb a chymesuredd wrth greu'r adroddiad safonau hwn a bydd yr ystyriaeth hon yn parhau trwy gydol y camau sydd i ddilyn.

Cam 1: Ymchwiliad safonau

Cyflwyno adroddiad safonau yn seiliedig ar ymgynghoriad gyda'r sector yw cwblhad cam cyntaf y broses.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.
- c) os yw'r Comisiynydd yn penderfynu bod safonau cyflenwi gwasanaeth yn benodol gymwys i berson, rhaid hefyd ddod i'r casgliad bod y safonau cadw cofnodion perthnasol hefyd yn benodol gymwys.

Cam 2: Cyflwyno rheoliadau

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Cam 3: Pleidlais ar y rheoliadau drafft ar lawr y Senedd

Bydd dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau drafft yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd pleidlais i gymeradwyo'r rheoliadau yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad neu'r sector, ac yn galluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Cam 4: Hysbysiadau cydymffurfio drafft a therfynol

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

- a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori gyda pherson ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio drafft. Dyma gyfle i ystyried rhesymoldeb a chymesuredd unrhyw ofynion penodol o fewn yr hysbysiad a bydd modd i'r sefydliad gyflwyno dystiolaeth bellach yn hynny o beth.

Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwnnw, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio terfynol i berson. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; cadw cofnodion) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun neu bolisi iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol

Nid yw'r Mesur yn enwi cwmnïau sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig yn unigol. Yn hytrach, enwir cyflenwyr trydan fel grŵp neu sector. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad hwn yn enwi cwmnïau yn unigol wrth gyflwyno'r ymatebion a dadansoddi'r dystiolaeth. Mae nifer o gwmnïau yn ddarparwyr trydan yn ogystal a nwy. Rydym yn ymchwilio i'r sectorau hyn ar wahân oherwydd eu bod yn cael eu henwi ar wahân yn y Mesur.

Er mwyn adnabod pa gwmnïau i'w cynnwys yn yr ymchwiliad, derbyniwyd rhestr gan Ofgem o gwmnïau gweithredol â thrwydded trydan perthnasol. Nodir yn Atodlen 8 taw

'ystyr "trwydded trydan berthnasol" ("relevant electricity license") yw deiliad trwydded o dan adran 6(1)(d) o Ddeddf Trydan 1989.'

Derbyniwyd tystiolaeth gan 25 cwmni sy'n gyflenwyr trydan. Roedd y dystiolaeth hyn yn cynnwys ymatebion i gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal a thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau pellach.

Er mwyn mapio'r sector fe wnaethom ymgynghori gydag Ofgem ac Energy UK..

Yn absenoldeb unrhyw safonau drafft neu safonau sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r sector dan sylw nid oedd yr holiadur yn gofyn i sefydliadau fynegi eu gallu i weithredu yn unol ag unrhyw safonau penodol. Felly seiliwyd yr holiadur ar weithgareddau Atodlen 9 y Mesur, sef 'gweithgareddau y mae'n rhaid pennu safonau cyflenwi gwasanaeth mewn perthynas â hwy'. Mae'r rhestr hwn yn cynnwys 16 gweithgaredd megis gohebiaeth; ffurflenni; cyhoeddiadau; a gwefannau. Wrth baratoi'r adroddiad fe wnaethom ymdrechu i gynnig esboniad o'r holl wasanaethau hyn a chynnig enghreifftiau. Ymdrechwyd hefyd i ystyried y math o weithgareddau penodol mae darparwyr trydan yn eu gwneud ym mhob categori.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch natur a strwythur y cwmnïau dan sylw, y gweithgareddau a wneir ganddynt, a'r gweithgareddau hynny a gynigir trwy'r Gymraeg ar hyn o'r bryd.


Dyma grynodeb o ymatebion y cwmnïau i'r holiadur fesul adran.

Adran 1: Gwybodaeth Cyffredinol

Derbyniwyd 25 ymateb gan gwmnïau trydan unigol. Holwyd cyfres o gwestiynau cyffredinol am weithlu'r cwmnïoedd, ac am y mathau o wasanaethau a ddarperir ganddynt.


1.1 Ydych chi'n cyflenwi trydan i gwsmeriaid yng Nghymru?

Mae 22 o'r holl ymatebwyr yn nodi eu bod yn darparu trydan i gwsmeriaid yng Nghymru gyda 3 yn nodi nad ydynt yn gwneud ar hyn o'r bryd. Mae'r 2 o'r cwmnïoedd hynny yn nodi eu bod yn bwriadu darparu trydan i gwsmeriaid yng Nghymru yn y dyfodol gyda'r cwmni arall yn dweud: "Not currently but happy to do so."



1.2 Ym mha siroedd yng Nghymru ydych chi'n cyflenwi trydan?

Mae mwyafrif y cwmnïau yn cyflenwi trydan i bob sir yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad mewn manylder pellach.




1.3 Faint o gwsmeriaid sydd gennych yng Nghymru?

Cafwyd amrywiaeth yn y modd roedd y cwmnïau'n adrodd nifer eu cwsmeriaid. Roedd rhai yn nodi ffigur cyffredinol ar gyfer cwsmeriaid nwy a thrydan yng Nghymru, eraill yn darparu swm ar gyfer cwsmeriaid domestig a busnes a rhai yn cynnig ffigur ar gyfer cwsmeriaid 'deudanwydd' (dual fuel). O ganlyniad, mae'n anodd cynnig cymhariaeth o niferoedd cwsmer gwahanol gwmnïau. Roedd y ffigur yn amrywio o'r isaf sef dim cwsmer yng Nghymru o gwbl i 11 o gwsmeriaid a'r uchaf yn 121,985.

1.4 Sawl aelod o staff sy'n gweithio i'r cwmni yng Nghymru

O'r 25 cwmni a ymatebodd, nid oedd 19 ohonynt yn cyflogi staff yng Nghymru. Roedd y nifer a gyflogwyd gan y lleill yn amrywio o tua 75 i dros 1700 o staff.

1.5 Ydych chi'n gwybod sawl aelod o'ch staff sydd â sgiliau Cymraeg? Os ydych, nodwch nifer os gwelwch yn dda.



Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg eu swyddogion. Eglurodd un ymatebydd bod hyn oherwydd bod ganddynt dîm penodedig sydd yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg ac felly nid ydynt yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg swyddogion eraill. Nododd dau gwmni bod ganddynt un aelod o staff â sgiliau Cymraeg, nododd un cwmni bod tri i bedwar aelod o staff â sgiliau Cymraeg. Nid oes gan nifer o'r ymatebwyr swyddfa yng Nghymru.

1.6. A oes rhywun yn cyflenwi gwasanaeth ar eich rhan dan gytundeb?

Mae 21 o'r ymatebwyr yn nodi bod rhywun yn cyflenwi gwasanaeth ar eu rhan dan gytundeb gyda phedwar yn nodi nad ydynt. Dyma'r mathau o wasanaethau sydd yn cael eu darparu dan gytundeb:

- marchnata
- darllen, gosod a chynnal a chadw mesuryddion
- cyfieithu
- ymchwil i'r farchnad
- casglu dyledion
- canolfannau galwadau
- sgwrsio ar-lein
- argraffu
- glanhau
- diogelwch
- biliau
- casglu data
- gwasanaethau technoleg gwybodaeth
- creu a chynnal a chadw gwefannau
- darparu gwasanaethau NEST

1.7 Ydych chi'n dyfarnu grantiau i drydydd parti?

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Nododd pedwar ymatebydd eu bod yn dyrannu grantiau i drydydd parti, nododd 20 ymatebydd nad oeddent yn dyrannu grantiau ac ni atebwyd y cwestiwn gan un ymatebydd. Gofynnwyd i'r sawl sydd yn dyrannu grantiau gynnig esboniad o'r grantiau hynny. Roedd yr ymatebion yn cyfeirio at roddion i elusennau a phrosiectau lleol. Nid oedd un ymatebydd yn awyddus i ymhelaethu.

Adran 2: Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

2.1 Faint o gwmnïau sy'n gweithredu unrhyw fath o polisi iaith Gymraeg ar hyn o bryd?

Nododd pedwar o'r ymatebwyr eu bod yn gweithredu polisi iaith, dywedodd 20 ymatebydd nad oeddynt yn gweithredu polisi ac ni chafwyd ymateb gan un sefydliad. Dywedodd un o'r pedwar sefydliad sydd yn nodi eu bod nhw'n gweithredu polisi iaith fod y polisi hwnnw yn berthnasol i'w gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid domestig yn unig. Nododd un arall o'r pedwar sefydliad sy'n gweithredu polisi iaith eu bod yn aros am ganlyniad yr ymchwiliad safonau cyn addasu'r polisi hwnnw.

2.2 Faint o gwmnïau sy'n cynnig hyfforddiant ieithyddol i'r staff?

Nododd 3 o'r ymatebwyr eu bod yn cynnig hyfforddiant ieithyddol i staff. Nododd yr ymatebwyr eraill, 22 ohonynt nad ydynt yn gwneud ar hyn o bryd.

2.3 Gohebiaeth

Fe wnaethom rannu'r cwestiwn ar ohebiaeth yn chwech adran sef:

- anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn
- ymateb i ohebiaeth Cymraeg rydych wedi ei dderbyn
- anfon gohebiaeth at nifer o bobl yr un pryd
- cytundebau / contractau darparu trydan
- biliau / datganiadau
- gohebiaeth ynghylch cymharu / newid tariffau

Dyma grynodedb o'r atebion:

Dwyieithog – Cymraeg a Saesneg	Dwyieithog– Cymraeg a Saesneg	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Anfon gohebiaeth at nifer o bobl ar yr un pryd e.e. cylchlythyr	1	1	16	7

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Dwyieithog – Cymraeg a Saesneg	Dwyieithog– Cymraeg a Saesneg	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn neu gwmni	1	3	23	0
Ymateb i ohebiaeth Cymraeg yr ydych wedi ei dderbyn	3	4	3	14
Cytundebau / contractau darparu trydan	0	2	21	1
Biliau / datganiadau	1	3	19	1
Gohebiaeth ynghylch cymharu / newid tariffau	1	1	22	1

Mae o leiaf dau ymatebydd wedi nodi eu bod nhw'n gwneud pob un o'r uchod ar wahân i gytundebau yn Gymraeg neu ddwyieithog neu'n Saesneg gyda pheth Cymraeg. Nid oedd unrhyw ymatebydd yn cynnig cytundebau yn ddwyieithog. Mae 2 cwmni yn cynnig yn Saesneg gyda pheth Cymraeg. Noddodd 14 ymatebydd nad oedd ymateb i ohebiaeth Gymraeg a dderbyniwyd yn berthnasol. Roedd y mwyafrif o weithgareddau eraill a restrwyd yn berthnasol i'r mwyafrif o'r sefydliadau ar wahân i ddanfôn gohebiaeth nifer o bobol yr un pryd, oedd yn amherthnasol yn ôl saith ymatebydd.

2.4 Galwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau

Rhannwyd yr adran ar alwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yn bedair adran sef:

- o ateb galwadau ffôn cyffredinol

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

- llinell ffôn archebu tocynnau
- neges peiriant ateb
- gwneud galwadau ffôn

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Ateb galwadau ffôn cyffredinol	1	1	19	4
Canolfannau galwadau	1	1	15	8
Neges peiriant ateb	1	1	20	3
Gwneud galwadau ffôn	1	1	21	2

Mae dau ymatebydd wedi ateb eu bod nhw'n gwneud pob gweithgaredd uchod yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig neu'n Saesneg gyda pheth Cymraeg. Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn nodi iddynt wneud y gweithgareddau hyn yn Saesneg yn unig gydag 8 ymatebydd yn nodi nad ydyw canolfannau galwadau'n berthnasol.

2.5 Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Rhannwyd yr adran ar gyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn dair rhan sef:

- cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd
- cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd
- arddangosfeydd

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd	0	4	11	10

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd	1	3	11	10
Arddangosfeydd	1	2	13	3

Mae 10 ymatebydd wedi eu bod yn cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd yn amherthnasol, nododd 10 ymatebydd hefyd fod cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd yn amherthnasol. Ni nododd unrhyw ymatebydd eu bod nhw'n cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig. Un ymatebydd nododd ei fod ynn cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ac un nododd ei fod yn cynnal arddangosfeydd yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Mae pedwar wedi nodi eu bod nhw'n cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd yn Saesneg gyda pheth Cymraeg a thri wedi nodi eu bod nhw'n cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd yn Saesneg gyda pheth Cymraeg. Mae dau ymatebydd wedi nodi eu bod nhw'n cynnal arddangosfeydd yn Saesneg gyda pheth Cymraeg.

2.6 Cyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus

Rhannwyd yr adran ar gyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus i saith adran sef:

- hysbysiad e.e. darllen mesurydd neu waith cynnal a chadw
- hysbysebion
- ymgyrchoedd marchnata
- posterï
- datganiadau i'r wasg
- gwybodaeth iechyd a diogelwch
- cyhoeddiadau eraill

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Hysbysiad e.e darllen mesurydd neu waith cynnal a chadw	0	1	17	6
Hysbysebion	0	0	20	5

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Ymgyrchoedd marchnata	0	1	21	3
Posterï	2	1	18	5
Datganiadau i'r wasg	1	2	19	3
Gwybodaeth iechyd a diogelwch	1	2	17	5
Cyhoeddiadau eraill	1	1	16	6

Ni nododd unrhyw un o'r ymatebwyr eu bod yn cyhoeddi hysbysiadau, hysbysebion nac ymgyrchoedd marchnata yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Nododd un ymatebydd ei fod yn cyhoeddi hysbysiadau'n Saesneg gyda pheth Cymraeg ac un nododd ei fod yn darparu ymgyrchoedd marchnata'n Saesneg gyda pheth Cymraeg. Mae dau ymatebydd yn nodi iddynt ddarparu posterï dwyieithog ac un yn Saesneg gyda pheth Cymraeg.

Dyma rai sylwadau a gafwyd yn yr adran hon. Nododd dau ymatebydd y byddai paratoi'r deunyddiau a restrir yn gostus gydag un ymatebydd yn nodi y byddai'n gostus i sefydliadau bychain. Dywedodd ymatebydd arall nad ydynt wedi hysbysebu yng Nghymru o'r blaen. Nododd ymatebydd arall mai trydydd parti sydd yn paratoi'r hysbysiadau am ddarllen mesuryddion.

2.7 Llunio a chyhoeddi ffurflenni

Rhannwyd yr adran ar lunio a chyhoeddi ffurflenni yn dair adran sef:

- ffurflen dalu
- ffurflen gwyno
- ffurflen gofrestru

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Ffurflen dalu	1	1	21	2

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Ffurflen gwyno	0	0	21	4
Ffurflen gofrestru	0	1	20	4

Nododd un ymatebydd ei fod yn darparu ffurflen dalu yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig, un ymatebydd ei fod yn darparu ffurflen dalu yn Saesneg gyda pheth Cymraeg ac un ei fod yn darparu ffurflenni cofrestru yn Saesneg gyda pheth Cymraeg. Roedd y ffurflenni hyn yn berthnasol i'r mwyafrif o'r ymatebwyr gan mai 2 yn unig a nododd nad oedd ffurflen dalu'n berthnasol a phedwar nododd nad oedd ffurflen gwyno'n berthnasol a phedwar nododd hefyd nad oedd ffurflen gofrestru'r berthnasol iddynt.

2.8 Gwefan, ar-lein a pheiriannau hunan wasanaeth

Ar gyfer y weithgaredd hon rhannwyd y cwestiwn yn bum rhan:

- gwefan
- system dalu ar-lein
- peiriant hunan wasanaeth e.e. prynu tocynnau
- cyfryngau cymdeithasol e.e. facebook a twitter
- gwasanaeth sgwrsio ar-lein e.e. ar eich gwefan
- ap e.e. ar ffôn

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Gwefan	0	3	21	0
System dalu ar-lein	0	0	18	7
Cyfryngau cymdeithasol	0	1	11	13
Gwasanaeth sgwrsio ar-lein e.e. ar eich gwefan	0	1	11	13
Ap	0	2	22	1

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Ar hyn o bryd nid oes gan unrhyw un o'r ymatebwyr wefan , system dalu ar-lein, ap, wasanaeth sgwrsio ar-lein dwyieithog ac nid yw eu cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol yn rai dwyieithog. Mae gan bob ymatebydd wefan ond dim ond rhai sy'n cynnig gwasanaethau ar-lein eraill. Mae dros hanner yr ymatebwyr yn nodi nad oes ganddynt gyfrif cyfryngau cymdeithasol a'r un nifer sef 13 yn nodi nad oes ganddynt wasanaeth sgwrsio ar-lein. Mae tri ymatebydd yn nodi bod eu gwefan yn Saesneg gyda pheth Cymraeg , un sefydliad yn defnyddio Saesneg gyda pheth Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac un sefydliad yn cynnig sgwrsio ar-lein yn Saesneg gyda pheth Cymraeg.

2.9 Arwyddion

Rhannwyd yr adran ar arwyddion i bedwar rhan, sef:

- arwyddion ar eich safleoedd
- arwyddion am waith cynnal a chadw
- mesuryddion
- arwyddion diogelwch

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Arwyddion ar eich safleoedd	2	2	14	8
Arwyddion gwaith cynnal a chadw	2	1	13	9
Mesuryddion	2	0	15	8
Arwyddion diogelwch	1	1	10	12

Mae pedwar o'r ymatebwyr yn nodi bod arwyddion ar eu safleoedd yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig neu'n Saesneg gyda pheth Cymraeg. Noda 14 ymatebydd bod arwyddion ar eu safleoedd yn Saesneg yn unig. Tra nad ydyw arwyddion ar safleoedd yn berthnasol i wyth ymatebydd. Noda tri ymatebydd bod arwyddion diogelwch yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig neu'n Saesneg gyda pheth Cymraeg.

2.10 Derbyn ymwelwyr

Rhannwyd y cwestiwn hwn i ddwy ran sef:

- derbyn ymwelwyr
- desgiau gwybodaeth

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Derbyn ymwelwyr	2	1	18	4
Desgiau gwybodaeth	1	0	12	12

Mae dau ymatebydd yn nodi eu bod yn derbyn ymwelwyr yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig ac un eu bod yn derbyn ymwelwyr yn Saesneg gyda pheth Cymraeg. Mae 18 ymatebydd yn nodi iddynt dderbyn ymwelwyr yn Saesneg yn unig ar hyn o'r bryd. Nid oedd derbyn ymwelwyr yn weithgaredd berthnasol i bedwar ymatebydd. Mae un ymatebydd yn nodi bod ei ddesgiau gwybodaeth yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig, nid oes unrhyw un o'r ymatebwyr yn darparu desgiau gwybodaeth yn Saesneg gyda pheth Cymraeg. Saesneg yn unig yw iaith desgiau gwybodaeth 12 o'r ymatebwyr. Nid yw 12 o'r ymatebwyr yn cynnig desgiau gwybodaeth.

Nododd bum ymatebydd nad oes ganddynt swyddfa yng Nghymru a dyna pham nad ydynt yn cynnig y gwasanaethau uchod yn ddwyieithog. Nododd un ymatebydd nad yw ei safle yn un sy'n agored i'r cyhoedd. Eglura'r ddau ymatebydd sydd yn nodi iddynt dderbyn ymwelwyr yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig eu bod yn cynnig y gwasanaeth hwn ar alw. Os oes ymwelydd yn awyddus i dderbyn gwasanaeth Gymraeg wrth y dderbynfa maent yn nôl aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i siarad â hwy.

2.11 Cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd

Holwyd y cwmnïau am gyrsiau hyfforddiant oeddent yn eu darparu a fyddai yn agored i'r cyhoedd.

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Cyrsiau	0	0	5	20

Ni nododd unrhyw ymatebydd eu bod nhw'n cynnig cyrsiau yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig nac ychwaith yn Saesneg gyda pheth Cymraeg. Roedd pum ymatebydd yn cynnig cyrsiau'n Saesneg yn unig. Nododd 20 o'r ymatebwyr nad oedd cyrsiau'n weithgaredd berthnasol.

2.12 Brand ac hunaniaeth gorfforaethol

Gofynnwyd i'r cwmnïau nodi eu harfer ieithyddol pan mae'n dod i frand a hunaniaeth eu cwmni.

Dyma grynodedeb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Brand ac enw'r cwmni	0	1	21	0

2.13 Gwasanaethau eraill

Rhodddwyd y cyfle i'r ymatebwyr egluro a oes unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir ganddynt ac i ba raddau maent yn eu gwneud yn Gymraeg.

Dyma grynodedeb o'r atebion:

	Ydyn	Nac ydyn	Heb ymateb
Gwasanaethau eraill	2	10	13

Nododd un o'r ymatebwyr eu bod yn cynnig y gwasanaeth hwnnw trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.14 Esboniwch sut rydych yn gwneud eich cwsmeriaid yn ymwybodol o'ch gwasanaethau Cymraeg

Cafwyd chwe ymatebydd yn cynnig sylwadau yma. Dyma grynodedeb ohonynt:

'Mae llinell Gymraeg ar gael trwy drydydd parti. Mae ein swyddogion yn cael gwybod amdano yn ystod eu hyfforddiant. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan fewnol.'

'Mae cwsmeriaid sydd â chod post Cymraeg yn cael biliau dwyieithog gyda'r ochr Gymraeg yn arddangos rhif ffon ein llinell Gymraeg yn glir.'

'Mae opsiwn "Cymraeg" ar ein gwefan sy'n eich harwain at dderbyn gwybodaeth bellach am ein gwasanaethau Cymraeg.'

'Mae cwsmeriaid yn cael gwybod am ein gwasanaethau Cymraeg trwy'n gohebiaeth, gwybodaeth ar ein gwefan, ein swyddogion cymunedol a thrwy ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid Cymraeg.'

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

'Nodir ar ein gwefan y gallwn ddarparu dogfennaeth yn Gymraeg ar gais.'

'Mae ein swyddogion wedi eu hyfforddi i wrando am gliwiau ar lafar i ddangos bod galwr yn dymuno siarad trwy ein gwasanaeth gyfieithu ar y pryd. Mae ein Cyngor ar Safonau Gwasanaeth a'n gwefan yn hysbysebu bod y gwasanaeth hwn ar gael.'

3. Cadw Cofnodion

Gofynnwyd i'r cwmnïau i ba raddau maent yn cadw cofnodion am y materion canlynol:

- unrhyw gwynion a dderbyniwyd gennych
- sgiliau iaith y gweithlu
- y sgiliau sydd angen ar gyfer swyddi penodol wrth recriwtio
- ceisiadau am wasanaeth cyfrwng Cymraeg

Dyma grynodeb o'r atebion:

	Cadw Cofnodion
Unrhyw gwynion a dderbyniwyd gennych	11
Sgiliau iaith	6
Y sgiliau sydd angen ar gyfer swyddi penodol wrth recriwtio	4
Ceisiadau am wasanaeth cyfrwng Cymraeg	5

4. Unrhyw sylwadau pellach

Derbyniwyd sylwadau pellach manwl gan nifer o'r cwmnïau. Mynegwyd pryder gan amryw ohonynt am gost ychwanegol posib unrhyw ofynion statudol i ddefnyddio'r Gymraeg. Roeddent o'r farn y byddai'n trosglwyddo'r gost ychwanegol i gwsmeriaid yng Nghymru yn anochel, gydag un cwmni yn amcan y byddai cost cychwynnol darparu gwasanaethau'n ddwyieithog oddeutu £2.5m. Nododd mwy nac un ymatebydd y byddent yn gorfod peidio a gweithredu yng Nghymru petai safonau'n cael eu gosod arnynt, gan bwysleisio effaith andwyol hynny ar gwsmeriaid yng Nghymru. Fodd bynnag, yn unol ag amod 22 y drwydded i gyflenwi trydan, mae gofyn i gwmni ddarparu ynni i unrhyw un sy'n gofyn iddynt wneud, waeth beth yw ei lleoliad yn y DU. Felly, ni fyddai peidio a gweithredu yng Nghymru yn opsiwn i'r cwmnïau hynny.

Nododd rhai o'r cwmnïau sydd eisoes yn darparu gwasanaethau Cymraeg i'w cwsmeriaid nad oedd y defnydd yn uchel. Roeddent yn teimlo bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol ac y byddai gofynion ychwanegol yn gosod anawsterau

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

diangen i weithio yng Nghymru. Gwnaeth un cwmni ymchwil i agweddau cwsmeriaid i wasanaethau Cymraeg gan gwmnïau ynni. Nid oedd yr ymatebion yn awgrymu bod awydd cryf ymysg cwsmeriaid i dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu ag elfennau eraill o ddarpariaeth cwmnïau ynni. Wedi dweud hynny, roedd dros draean o ymatebwyr yn nodi taw gwasanaethau ffôn a derbyn biliau a gohebiaeth Cymraeg fyddai bwysicaf iddynt wrth ymwneud â chwmni ynni.

Nododd sawl cwmni nad oeddent yn darparu gwasanaethau Cymraeg i'w cwsmeriaid busnes. Mae cwmnïau ynni yn rhannu eu cwsmeriaid i dri categori: domestig, busnesau bach a chanolig, a masnachol neu ddiwydiannol (I&C). I bob pwrpas, mae'r cwmnïau'n rhannu'u cwsmeriaid i rai domestig (cartrefi) ac annomestig (busnesau bach a chanolig, a rhai masnachol neu ddiwydiannol). Mae'r Mesur yn diffinio'r weithgaredd o 'gyflenwi trydan i'r cyhoedd' fel a ganlyn:

Atodlen 8 (Dehongli) 2(b) – 'darparu'r gwasanaeth at unrhyw ddiben (boed at ddiben domestig, busnes neu ddiben arall).'

Nid yw'n gwahaniaethu, felly, rhwng cwsmeriaid domestig ac annomestig. Fodd bynnag, nid yw'r un gwasanaethau ar gael i'r ddwy garfan o gwsmeriaid ar hyn o bryd a dylid ystyried hynny wrth ddod i gasgliadau ar ba safonau allai fod yn benodol gymwys i gwmnïau.

Mae tirwedd y sector ynni yn newid yn gyson a ffactor sy'n cael effaith ar hyn o bryd yw cynllun y llywodraeth i osod mesuryddion clyfar ym mhob cartref ym Mhrydain erbyn 2020. Y cwmnïau ynni sydd â chyfrifoldeb dros osod y mesuryddion. Nid yw'r fanyleb technegol a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y mesuryddion yn cynnwys gofyniad ieithyddol. Mae gosod mesuryddion yn flaenoriaeth uchel i'r cwmnïau ynni oherwydd yr amserlen sydd wedi'i gosod gan y Llywodraeth.

Er bod 14 cwmni yn nodi bod gosod mesuryddion yn weithgaredd perthnasol iddynt, does dim un yn darparu'r wasanaeth gydag unrhyw elfen o Gymraeg. Dylid nodi bod nifer o'r cwmnïau'n is-gontractio'r gwaith o osod mesuryddion i drydydd partion. Dylid hefyd nodi bod y Comisiynydd yn deall o drafodaethau gydag Ynni Clyfar GB bod mesuryddion ar y farchnad sy'n cynnig opsiynau amlieithog ar gyfer sgriniau arddangos.

Ers blynyddoedd, bellach, mae anogaeth wedi bod ar gwsmeriaid i ystyried newid cyflenwyr ynni er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn prisiau cystadleuol am eu hynni. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cyhoeddi adolygiad o'r sector ynni gan ddarganfod bod nifer helaeth o gwsmeriaid erioed wedi newid cyflenwr neu dariff ynni. Roedd cwsmeriaid yng Nghymru yn llai tebygol o fod wedi newid cyflenwyr, gyda 29% o gwsmeriaid wedi bod gyda'u cyflenwr ers dros 10 mlynedd. O ganlyniad, ystyrir bod cwsmeriaid dan anfantais mewn marchnad gystadleuol gan nad ydynt yn manteisio ar y cyfleon i gael cyflenwad o ynni rhatach. Mynegwyd pryderon gan rai o'r ymatebwyr y byddai gofynion ychwanegol o ran y Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i'r cwsmer ac yn anghymell cwmnïau rhag gweithredu yng Nghymru. Nodwyd bod cwsmeriaid yng Nghymru eisoes yn talu mwy am ynni na nifer o ardaloedd eraill ym Mhrydain oherwydd goblygiadau trawsgludo ac yn y blaen.

5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd cyfanswm o 21 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 20 o ymatebion i'r ymchwiliad gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd un ymateb pellach ar ffurf adroddiad gan Gymdeithas yr Iaith. Yr oedd yr adroddiad yn ateb holl gwestiynau'r holiadur ond ar ffurf paragraffau yn hytrach na thablau a sylwadau pellach.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad A.


Safonau cyflenwi gwasanaethau

Wrth holi barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

'A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwasanaethau a ddaw o dan y categorïau uchod gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau isod?'

Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwmpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae'r tabl isod yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd:




Safonau cadw cofnodion

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

'A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwasanaethau a ddaw o dan y categorïau uchod gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau isod?'

O'r 20 ymateb a gafwyd drwy'r holiadur ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, roedd 100% wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 20 a ymatebodd, roedd 85% yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y tabl isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:



Sylwadau Pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol yr oeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 20 ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 60% (12) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Roedd mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd yn gefnogol iawn i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gwmnïau nwy.

Mynegodd y cyhoedd y dylai'r safonau a gaiff eu pennu sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth gwbl ddwyieithog yn ddiodyfyn.

Mynegwyd yr angen gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rai a fydd yn cael effaith ar fywydau pob dydd pobl gyffredin.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- yr angen i sicrhau bod pob cwmni yn darparu gwasanaeth dwyieithog drwyddi draw yn ddiodyfyn i'r holl gwsmeriaid, gyda'r Gymraeg yn gyntaf bob tro
- yr angen i sicrhau bod gwasanaeth ar-lein, apiau a datblygiadau newydd yr un mor gyffredol yn y Saesneg a'r Gymraeg
- bod y Gymraeg yn dod yn rhan o ddiwylliant mewnol y cwmnïau yn hytrach na'u bod yn wasanaeth atodol sy'n cael ei drosglwyddo i asiantaeth allanol

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

- yr angen i sicrhau nad yw gwasanaeth Cymraeg yn cael ei golli wrth dderbyn gwasanaeth wyneb i wyneb

Ar y cyfan ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i ddyletswyddau iaith gan y cyhoedd. Amlinellir brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd gan y cyhoedd a oedd yn erbyn gwneud safonau'n benodol gymwys isod:

- cred un ymatebwr y dylid rhoi dewis iaith i bob cwsmer ar y dechrau yn hytrach na darparu gwasanaethau yn ddwyieithog i bawb
- er y cytunir hefo gosod safonau i sicrhau gwasanaeth Cymraeg, credir bod angen ystyried y gost ychwanegol a gan bwy yr ad-delir y gost honno

Yr oedd mwyafrif helaeth o'r ymatebion a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd drwy'r wefan yn cytuno y dylid sicrhau bod cwmnïau trydan yn ddarostyngedig i'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Cafwyd ymateb ar sail adroddiad gan Cymdeithas yr Iaith a'r grŵp yn unfryd gytuno y dylid gosod safonau ar gwmnïau trydan yng Nghymru. Derbyniwyd sylwadau pellach trwy'r holiadur ar y wefan yn ogystal ag adroddiad Cymdeithas yr Iaith yn gofyn i'r cwmnïau fynd gam ymhellach na'r hyn a gynigiwyd yn yr holiadur. Cynigwyd fod angen i'r cwmnïau gydnabod statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru yn ogystal â chydabod hawliau eu gweithwyr a'u cwsmeriaid i dderbyn gwasanaeth Cymraeg. Mae angen i wasanaethau Cymraeg gael eu cynnig yn rhagweithiol i'r cwsmeriaid ac i'r iaith fod yn rhan greiddiol i wasanaethau'r cwmnïau.

Yr oedd rhan helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r cwmnïau trydan orfod gohebu â'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Cred nifer o'r ymatebwyr mai darparu'r holl wybodaeth yn ddwyieithog yw'r ffordd orau i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn hafal. Yr oedd un ymatebwr yn anghytuno ac yn credu y dylai'r cwmnïau trydan ofyn am ddewis iaith y cwsmer o'r cychwyn cyntaf a darparu gohebiaeth un ai yn uniaith Gymraeg neu'n uniaith Saesneg i'r cwsmer yn ôl ei ddymuniad. Nodwyd hefyd ei bod hi'n bwysig i ddefnyddio cyfeiriadau Cymraeg wrth ohebu'n Gymraeg gyda chwsmeriaid a bod hynny i gynnwys enwau strydoedd a threfi yn Gymraeg.

Cred Cymdeithas yr Iaith ei bod hi'n hanfodol nad yw anfon gohebiaeth yn Gymraeg yn arwain at fwy o oedi cyn derbyn ymateb. Nodir hefyd yr angen i sicrhau bod pob dull o ohebu'n cael eu cynnwys yn y safonau megis e-byst, neges destun, cylchlythron, biliau a datganiadau boed rhain ar bapur neu'n electronig.

Eto cytunodd mwyafrif llethol o aelodau'r cyhoedd y dylai gwefannau a gwasanaethau ar-lein fod ar gael yn Gymraeg. Yr oedd mwyafrif o'r sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein yn tynnu sylw at sicrhau cysondeb o ran y wybodaeth sydd ar gael yn y ddwy iaith. Dylid gallu dod o hyd i'r un wybodaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg drwy ddilyn yr un camau. Gofynnwyd hefyd i sicrhau bod 'Smart Meters' ac apiau'r cwmnïau yn dod o dan y safonau.

Cred Cymdeithas yr Iaith bod darparu gwasanaeth cyflawn Cymraeg ar-lein yn bwysig iawn er mwyn normaleiddio a chynyddu'r defnydd ohoni. Credant hefyd bod

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

angen sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ar wefannau cymdeithasol a bod safon yn ei lle i sicrhau bod staff yn gallu ymateb i ymholiadau Cymraeg ar-lein yn safonol.

Nododd mwyafrif o'r ymatebwyr bod eisiau i arwyddion fod yn Gymraeg. Cytunodd Cymdeithas yr Iaith hefyd. Yr oeddynt o'r farn bod gormod o arwyddion ble nad yw'r Gymraeg yn bresennol neu'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Credant bod rhaid i bob arwydd dim ots beth yw ei faint, na'i oedran fod yn Gymraeg hyd yn oed os yw'n arwydd dros dro, yn barhaol neu'n arwydd ar fesurydd.

Teimlodd y mwyafrif y dylai brand a hunaniaeth gorfforaethol cwmnïau trydan fod yn Gymraeg. Aeth un ymatebydd ymlaen i nodi y dylai cwmnïau sicrhau bod ganddynt enw Cymraeg ar gyfer eu gweithgarwch yng Nghymru a bod eu holl wisgoedd, cerbydau a'u deunydd marchnata yn cael eu harddangos yn Gymraeg. Rhannodd Cymdeithas yr Iaith yr un farn. Yr oedd ymatebwr arall hefyd yn cytuno y dylai'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf neu uwchben y Saesneg. Nodwyd yn glir gan yr ymatebydd na 'ddylai unrhyw hunaniaeth gorfforaethol gynnwys ffurf ar acronym o darddiad Saesneg yn unig.'

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus gael eu cynnal yn Gymraeg. Nododd un ymatebwr y dylai unigolyn fedru trafod unrhyw fater yn Gymraeg gyda chynrychiolydd gwasanaeth heb orfod defnyddio cyfieithydd. Yr oedd ymatebwr arall yn credu y dylai fod gan unigolion yr hawl i dderbyn gwasanaeth Cymraeg wrth ymwneud â'r cwmnïau ac y dylai'r Comisiynydd gynnwys 'call-outs' yn rhan o'r safonau. Rhannodd Cymdeithas yr Iaith yr un weledigaeth. Credant y dylid cynnal cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chymorth offer cyfieithu pe byddai angen, dim ots faint o bobl sy'n siarad Cymraeg.

Cytunodd y mwyafrif y dylai galwadau ffôn a chanolfannau galwadau gynnig gwasanaethau Cymraeg. Nododd un ymatebwr bod eisiau i bob cyfarchiad neu ymateb cychwynnol fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Fe nodwyd gan lawer ymatebwr y dylai bod rhif ffôn penodol ar gyfer galwyr Cymraeg eu hiaith ac na ddylai'r un cwsmer Cymraeg orfod siarad Saesneg wrth ymdrin gyda'i galwad. Rhoddwyd pwyslais mawr hefyd ar sicrhau bod rhifau ffôn llinellau cymorth Cymraeg yn gywir ac yn cael eu hysbysebu'n ddigonol ar wefannau, biliau ac holl ohebiaeth y cwmnïau.

Nododd Cymdeithas yr Iaith y dylai llinellau cymorth Cymraeg fod ar gael am yr un cyfnod a'r Saesneg ac ni ddylent gostio fwy i'w defnyddio. Awgrymodd y Gymdeithas hefyd y dylai bod cwmnïau yn cadw cofnod o ddewis iaith eu cwsmeriaid, a phan fo cwmni yn cysylltu â chwsmer dros y ffôn, dylid cysylltu â hwy yn eu dewis iaith.

Cytunodd 85% bod angen llunio a chyhoeddi ffurflenni yn Gymraeg. Nododd un ymatebwr y dylid sicrhau bod ffurflenni talu drwy ddebyd uniongyrchol ar gael yn Gymraeg yn ogystal a gwybodaeth a deunydd ymarferol i alluogi defnyddio cardiau i dalu o flaen llaw mewn mesuryddion pwrpasol. Nododd Cymdeithas yr Iaith bod angen i holl ddeunyddiau cyhoeddus y cwmnïau a phob ffurflen gan gynnwys ffurflenni cofrestru a ffurflenni cwyno fod yn Gymraeg. Yr oedd y cyhoedd a Cymdeithas yn cytuno bod hyn yn wir am gyhoeddusrwydd y cwmnïau hefyd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Yr oedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid darparu cyrsiau yn Gymraeg. Yr oedd Cymdeithas hefyd yn credu bod angen darparu cyrsiau yn ogystal a seminarau, gweithdai mewnol ac allanol yn Gymraeg.

Cytunodd y cyhoedd a Cymdeithas yr Iaith bod angen sicrhau gwasanaeth derbyn ymwelwyr Cymraeg. Gofynnodd Cymdeithas yr Iaith i'r Comisiynydd gryfhau fersiynau cynharach y safonau i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o wasanaethau wyneb yn wyneb.

Cred Cymdeithas yr Iaith bod angen mynd i'r afael a pholisïau recriwtio'r cwmnïau er mwyn sicrhau twf yn nefnydd y Gymraeg. Credant mai diffyg ym mholisïau recriwtio'r cwmnïau sydd i'w feio mewn nifer o achosion am ddiffyg cyflenwi gwasanaeth. Mae Cymdeithas yn argymhell ei bod hi'n bwysig symud Safonau, megis Safonau 136-140 ynghylch recriwtio staff a Safonau 98 ynghylch llunio polisi o ran defnydd mewnol o'r Gymraeg, i mewn i'r categori 'Safonau Cyflenwi Gwasanaethau' fel bod cwmnïau ynni yn ddarostyngedig iddynt.

Safonau cadw cofnodion

Yr oedd 85% yn cefnogi'r angen i sefydliadau gadw cofnodion a hynny er mwyn sicrhau'r gallu i fonitro ac archwilio cydymffurfiaeth â'r safonau eraill. Yr oedd un ymatebwr o'r farn bod cadw cofnodion o sgiliau iaith yn allweddol. Roedd Cymdeithas yr Iaith yn rhannu'r un farn ac yn credu bod cadw cofnodion yn bwysig er mwyn mapio'r gweithlu er mwyn cynyddu defnydd mewnol ohoni.

6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) y Mesur.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol y Mesur; bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan gydnabod y bydd pryder ymysg y rheini a gaiff eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod pawb yn deall gofynion y Mesur; y Ddeddfwriaeth a ysgogodd ddyfodiad y safonau hyn.

Fel nodwyd mewn ymateb i ymchwiliadau blaenorol, roedd y panel o'r farn y dylid ystyried sut y bydd rhai safonau yn cael eu gweithredu mewn modd 'rhesymol a chymesur' wrth osod y gofynion mewn hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 y Mesur.

Cytunodd pob aelod o'r Panel y dylid cynnig safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg. Cafwyd tri sylw ychwanegol gan y Panel ynglŷn â'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Awgrymwyd y dylid cadw cronfa ddata o ddewis iaith y cwsmeriaid er mwyn cysylltu a chyfathrebu yn effeithiol gyda phawb. Yr oeddynt hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod rhaid i arwyddion fod yn ddwyieithog am resymau diogelwch yn hytrach na rhesymau ieithyddol yn unig. Teimla'r Panel ei bod yn hanfodol hefyd i sicrhau offer cyfieithu mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Cred y Panel ei bod hi'n ddyletswydd ar gwmnïau i wneud popeth rhesymol o fewn eu gallu i ganfod staff dwyieithog er mwyn gallu cynnig gwasanaeth cyflawn. Yn yr un modd credant y dylid gwneud y defnydd gorau o dechnoleg gyfoes i sicrhau gwasanaeth dwyieithog cyflawn gan dderbyn bod rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg yn sgil penodol wrth wasanaethau y Gymru fodern.

7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

Mae'r casgliadau isod wedi seilio ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan y cwmnïau, y cyhoedd a'r Panel Cyngori mewn ymateb i'r ymchwiliad safonau. Beth a geir isod yw casgliadau sydd yn ystyried y gweithgareddau sy'n cael eu darparu'n bresennol gan y cwmnïau trydan, ystyriwyd hefyd y blaenoriaethau a nodwyd gan y cyhoedd yn eu hymatebion i'r ymchwiliad.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y Ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth Ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg. Daw'r rhestr o'r gweithgareddau a nodir yn Atodlen 9 y Mesur, yn ogystal â rhai sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau blaenorol.

Ers dechrau'r ymchwiliad hwn, mae rheoliadau pellach wedi eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Gymraeg. Fe gyhoeddwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymerydd Dŵr a Charthffosiaeth) Drafft ar 25 Tachwedd 2016. Dyma'r set gyntaf o reoliadau a baratowyd mewn perthynas â grŵp o bersonau a enwir yn Atodlen 8 y Mesur. Felly, rydym wedi ystyried y safonau drafft a gyflwynwyd ar gyfer yr ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth wrth ddod i gasgliadau ar yr ymchwiliad i gyflenwyr trydan.

Nodir bod adran 42 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person hwnnw, ac i'r graddau y mae'r person hwnnw, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon o'r Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau fod person neu grŵp o bersonau yn gwneud y gweithgaredd,² boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwmpas y gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

² Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person neu grŵp o bersonau yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a geir yn rhan o'r ymchwiliad safonau neu drwy ddulliau eraill, daw'r Comisiynydd i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai fod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd y Comisiynydd yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i gasgliad ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 y Mesur.

O'r gweithgareddau a oedd yn sail i'r ymchwiliad, roedd pob un o'r isod yn berthnasol i un neu fwy o'r cwmnïau trydan. Hynny yw:

- anfon gohebiaeth at nifer o bobl ar yr un pryd
- anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn neu gwmni
- gohebiaeth ynghylch newid tariffau
- ymateb i ohebiaeth Cymraeg yr ydych wedi ei dderbyn
- biliau / datganiadau
- cytundebau / contractau darparu trydan
- ateb galwadau ffôn cyffredinol
- canolfannau galwadau
- neges peiriant ateb
- gwneud galwadau ffôn
- cynnal cyfarfod ag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd
- cynnal digwyddiad sy'n agored i'r cyhoedd
- arddangosfeydd
- hysbysiad
- hysbysebion
- ymgyrchoedd marchnata
- posterï
- datganiad i'r wasg
- gwybodaeth iechyd a diogelwch
- cyhoeddiadau eraill
- ffurflen gwyno
- ffurflen dalu
- ffurflen gofrestru
- gwefan
- cyfryngau cymdeithasol
- sgwrsio ar lein
- ap
- arwyddion ar safleoedd
- arwyddion am waith cynnal a chadw
- mesuryddion
- arwyddion diogelwch
- derbyn ymwelwyr
- desgiau gwybodaeth
- cyrsiau
- brand a hunaniaeth gorfforaethol

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

Rydym hefyd yn nodi bod nifer o'r cwmnïau yn defnyddio trydydd partiön i ddarparu rhai gwasanaethau ar eu rhan.

O'r rhestr uchod, mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn 'Ddwyeithog – Cymraeg a Saesneg' neu 'Saesneg gyda pheth Gymraeg' ond yn berthnasol i rhwng 1 a 7 cwmni allan o'r 25 a ymatebodd.

Ymysg y cwmnïoedd sydd yn cynnig gwasanaethau Cymraeg, dylid nodi bod argaeledd gwasanaethau Cymraeg ar gyfer cwsmeriaid domestig fel arfer yn uwch nac argaeledd gwasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid busnes neu ddiben arall.

Croes gyfeiriwyd y rhestr o wasanaethau a nodir uchod yn erbyn y safonau cyflenwi gwasanaethau a rhestrir yn rheoliadau drafft ar gyfer Ymgwymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth. Gweler bod bron pob un o'r safonau a gynigir yn berthnasol i'r cyflenwyr trydan trwyddedig yn ogystal a rhai gwasanaethau ychwanegol. Gweler Casgliad 2 am rhestr o'r gwasanaethau hynny.

Casgliad 1:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i gyflenwyr trydan trwyddedig. Mae'r rhestr isod yn seiliedig ar safonau cyflenwi gwasanaethau rheoliadau drafft safonau'r Gymraeg (Ymgwymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth)

- 1. Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff
 - (1) Pan fo corff yn ateb gohebiaeth
 - (2) Pan fo corff yn gohebu
 - (3) Safonau cyffredinol ynghylch gohebu
- 2. Safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff
 - (1) Galwadau ffôn i brif rif ffôn y corff ac i unrhyw linellau cymorth neu ganolfannau galwadau
 - (2) Corff yn delio â galwadau ffôn drwy system wedi ei hawtomeiddio
- 3. Safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
 - (1) Cyfarfodydd rhwng corff ac un person gwahoddedig arall
 - (2) Cyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un person gwahoddedig
- 4. Safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- 5. Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff
- 6. Safonau ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- 7. Safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
- 8. Safonau ynghylch corff yn llunio dogfennau
- 9. Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
- 10. Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
 - (1) Gwefannau a gyhoeddir gan gorff
 - (2) Apiau a gyhoeddir gan gorff
 - (3) Cyfleusterau sgwrsio ar lein

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

- 11. Safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- 13. Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff
- 14. Safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- 15. Safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau
- 16. Safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau
- 17. Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- 18. Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff
- 19. Safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff

Mae rhai safonau wedi eu hepgor yn bwrpasol.

Casgliadau Pellach

Mae cyflwyniad Llywodraeth Cymru i'r ddogfen ymgynghori Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymerydd Dŵr a Charthffosiaeth) yn ymgymryd â nifer o faterion sy'n berthnasol i'r sylwadau a gasglwyd gan gwmnïau trydan, y panel cynghori a'r cyhoedd wrth gynnal yr ymchwiliad hwn i gyflenwyr trydan trwyddedig.

Mae '2.3 Galwadau Ffôn' y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at awydd y Llywodraeth i ganolbwyntio ar ddefnydd cwsmeriaid o linellau cymorth. Mae hyn yn cyd fynd â rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd gan gwmnïau trydan.

Mae '2.4 Cyhoeddiadau' yn cyfeirio at awydd y Llywodraeth i ddod o hyd i ffordd o sicrhau y caiff y dogfennau cywir eu cyhoeddi yn Gymraeg pan fo'r pwnc a/neu'r gynulleidfa ddisgwyliedig yn awgrymu y dylid ei chyhoeddi yn Gymraeg. Mae'r sylwadau a gyflwynwyd gan rhai cwmnïau trydan yn mynegi'r un neges. Wedi dweud hynny, dylid nodi nad oes gan bob cwmni trydan yr arbenigedd na'r profiad wrth ddarparu cyhoeddiadau yn Gymraeg. Dylid hefyd nodi sylwadau rhai aelodau'r cyhoedd yn gofyn am wasanaeth gwbl ddwyieithog yn ddiodyn.

Mae '2.5 Gwefannau' yn cyfeirio at awydd y Llywodraeth i roi'r gallu i'r Comisiynydd i amrywio dyletswyddau. Gellid amrywio rhwng sicrhau bod pob tudalen newydd ar gael yn Gymraeg, i gael hafan a/neu ryngwyneb Cymraeg. Mae'r adborth a gasglwyd gan y Comisiynydd yn cyfeirio at alwadau gan rhai cwmnïau trydan i weld trefniadau o'r fath mewn lle. Eto rhaid cydbwysu galwadau'r cwmnïau trydan yn erbyn y galw gan rai aelodau o'r cyhoedd am wasanaethau cwbl ddwyieithog.

Mae '2.6 Cyfleusterau sgwrsio ar-lein' yn cyfeirio at yr angen i ystyried yr amrywiaeth o ffyrdd gall cwsmer dod i gysylltiad â chwmni. Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn berthnasol i gwmnïau trydan.

Mae'r '2.7 Materion eraill' yn cyfeirio at yr angen i ystyried bod gan rai cwmnïau swyddfeydd yng Nghymru a Lloegr a'r angen i gyfyngu'r safonau yn ymwneud â derbyn ymwelwyr i fod yn berthnasol i dderbynfeydd yng Nghymru yn unig. Mae'r pwynt yma yn cyd-fynd â'r wybodaeth a gasglwyd gan y Comisiynydd wrth dderbyn adborth gan y cwmnïau trydan.

Wrth ystyried y gwasanaethau a amlygir i'r Comisiynydd sydd yn berthnasol i'r cwmnïau trydan ac yna croes gyfeirio yn erbyn y rheoliadau drafft ar gyfer

ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, gweler bod angen ystyried rhai materion ychwanegol. Dylid sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhai gweithgareddau ychwanegol.

Casgliad 2:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau sy'n ymdrin â'r materion ychwanegol a nodwyd isod:

- mesuryddion clyfar

Defnydd o drothwyon yn y sector ynni

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wrth gynnal yr ymchwiliad hwn yn awgrymu bod gwahaniaeth sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael yn bresennol i gwsmeriaid yng Nghymru rhwng y cwmnïau trydan. Mae yna amrywiaeth amlwg rhwng y cwmnïau lleiaf a'r cwmnïau mwyaf. Gwelwyd amrywiaeth darpariaeth hefyd rhwng y cwmnïau mwyaf sef 'y chwech cyflenwyr ynni mawr'. Gwelwyd hefyd nad yw pob cyflenwr yn darparu yng Nghymru ar hyn o bryd.

Pwrpas safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Rhaid cydbwysu'r angen i gyflwyno safonau sy'n cyflawni'r pwrpas uchod gyda'r angen i beidio ymyrryd yng nghystadleuaeth agored y farchnad ynni a chynnig y cyfle i ddefnyddiwr dewis a dethol rhwng amrywiaeth eang o ddarparwyr. Gellir ystyried y rhaglenni mae Ofgem eisoes yn gweithredu wrth gyflwyno rhaglenni amgylcheddol a chymdeithasol ar ran Llywodraeth y D.U fel cyfundrefn i'w hystyried wrth gyflwyno rheoliadau:

Rhaglenni amgylcheddol a chymdeithasol Ofgem

Rheoleiddir cwmnïau nwy a thrydan gan Ofgem. Prif ddyletswydd Ofgem yw diogelu buddiannau defnyddwyr.

Rhan o gyfrifoldebau Ofgem yw sicrhau bod cyflenwyr ynni yn gweithredu yn unol ag amodau'r drwydded cyflenwi. Mae cyflenwyr trydan yn gweithredu dan 'drwydded cyflenwi trydan safonol'. O fewn y drwydded ceir diffiniadau amrywiol sy'n berthnasol i'r sector ac a ddefnyddir i weinyddu amryw o raglenni a phennu gofynion ar gwmnïau. Enghraifft o hyn yw gwahanu'r cwmnïau 'bach' a 'mawr' gan ddefnyddio trothwy. Yn ôl diffiniad y drwydded:

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig

'Golyga Cyflenwr Egni Bach gyflenwr egni a oedd yn cyflenwi (p'un ai gyda thrydan, neu nwy, neu'r ddau) llai na 250,000 (dau gant a hanner o filoedd) o safleoedd ynni domestig ar 15 Chwefror 2015.'

(Small Energy Supplier means an Energy Supplier which supplied (whether with electricity, or gas, or both) fewer than 250,000 (two hundred and fifty thousand) Domestic Energy Premises on 15 February 2015.)

Cyfeirir at y trothwy hwn yn rheoliadau'r ddeddfwriaeth 'Warm Home Discount'. Mae gofyn i gwmnïau sy'n cyflenwi dros 250,000 o gwsmeriaid weithredu'r 'Warm Home Discount' sef cynllun Llywodraeth y DU sy'n ymladd tlodi tanwydd. Ceir trothwy arall o fewn y drwydded sef ar gyfer 50,000 o gwsmeriaid. Cyfeiria hyn at gynnig amrywiaeth o opsiynau talu i gwsmeriaid.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wrth gynnal yr ymchwiliad hwn yn dangos yr amrywiaeth mewn maint a darpariaeth sydd rhwng y cwmnïau trydan yn y DU. Mae hyn yn rhannol oherwydd ymdrechion awdurdodau fel Ofgem dros y blynyddoedd diwethaf i ehangu cystadleuaeth a'i wneud yn haws i gwmnïau gael mynediad i'r farchnad a dod yn gyflenwyr ynni. O ganlyniad, mae'r nifer o gwmnïau sy'n cyflenwi trydan wedi cynyddu o'r '6 mawr' i ffigyrau dwbl wrth i rwystrau i fynediad gael eu tynnu. Dyma pam bod trothwyon megis yr uchod yn bodoli; er mwyn caniatáu i gwmnïau bach dyfu cyn iddynt orfod ymrwmo i unrhyw gynlluniau amgylcheddol neu gymdeithasol a allai lesteirio twf cynnar.

Gallai unrhyw ofynion o safbwynt y Gymraeg ddilyn yr un cynsail.

Casgliad 3:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried yr angen i gynnwys trothwy neu trothwyon mewn perthynas a chyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer cyflenwyr trydan trwyddedig. Gellid gwneud hyn gan ystyried y trothwyon sy'n bodoli o fewn y drwydded cyflenwi safonol.

Safonau cadw cofnodion

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylai cyflenwyr nwy sy'n benodol gymwys i weithredu safonau cyflenwi gwasanaethau, gadw cofnod o sut maent yn cydymffurfio â'r safonau hynny. Yn ogystal, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylent gadw cofnod o gwynion.

Casgliad 4:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i gyflenwyr trydan i'r cyhoedd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Mae darpariaeth yn y Mesur yn ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 –Darpariaethau Atodol). Pwrpas y safonau yw hwyluso adrodd a monitro cydymffurfedd sefydliadau a gosod camau iddynt gyhoeddi gwybodaeth ar eu perfformiad yn erbyn y gofynion statudol. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o egwyddorion sylfaenol rheoleiddio sy'n cydnabod fod gan y sefydliad, yn ogystal â'r arolygwr neu rheoleiddiwr rôl i'w chwarae mewn sicrhau ymlyniad at ofynion statudol.

Casgliad 5:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaeth a chadw cofnodion fod yn benodol gymwys i'r cyflenwyr trydan perthnasol.

8 Y Camau Nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) y Mesur:

- pob person perthnasol
- Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

'A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.'

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 y Mesur ai peidio.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir restr o aelodau'r Panel Cyngori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

Aelodau'r cyhoedd

- Emyr Gruffydd
- Huw Roberts
- Stephen Evans
- Leslie Larsen
- Sion Wyn Ifans
- Peter Keelan
- D James ac A James
- Gwyn M Lloyd
- Owen Watkin
- Sian Elen Tomos
- D Clift
- Anwen Gwyndaf
- Anthony Caradog Evans
- Ruth Williams
- Elwyn Vaughan
- Tom Sugg

Sefydliadau

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper
- Dr Heledd Iago
- Meinir Davies